O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 7 (Cy. 3)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Traffordd yr A48(M) (Llaneirwg, Caerdydd) (Terfyn Cyflymder 50 MYA Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *4 Ionawr 2011* |
| *Yn dod i rym* | *10 Ionawr 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Drafffordd yr A48(M) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y drafffordd") wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r drafffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno ac oherwydd tebygolrwydd perygl i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall yn gwneud y Gorchymyn hwn**(2)**.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 10 Ionawr 2011 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr A48(M) (Llaneirwg, Caerdydd) (Terfyn Cyflymder 50 MYA Dros Dro) 2011.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 10 Ionawr 2011 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu tynnu oddi yno'n barhaol.

ystyr "y darn o'r drafffordd" *("the length of* the *motorway")* yw'r darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y drafffordd sy'n ymestyn o bwynt wrth drosbont Tyla Lane hyd at bwynt lle y mae'n uno â phrif gerbytffordd yr A48/Eastern Avenue, lle y mae'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 29A yr A48/Eastern Avenue yn uno â'r brif gerbytfordd wrth Laneirwg yn Ninas a Sir Caerdydd.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r draffordd.

**4.** Ni fydd darpariaethau erthygl 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**5.** Mae darpariaethau Rheoliad 3 o Reoliadau Traffig Traffyrdd (Terfyn Cyflymder) 1974**(3)**, i'r graddau y maent yn ymwneud â'r darn o'r draffordd, drwy hyn yn cael eu hatal dros dro ar yr adegau pan fo'r gwaharddiad a bennir yn erthygl 3 mewn grym.

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 4 Ionawr 2011

***J COLLINS***
Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyflenwi Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru

**(1)** 1984 p.27; Amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi .

**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**(3)** O.S. 1974/502